ATODLEN 2 Erthygl 14

CAMAU SY'N GYMWYS MEWN ARDAL HEINTIEDIG A SEFYDLIR O DAN ERTHYGL 14

# RHAN I

## Camau sy'n gymwys i ddaliadau yn yr ardal heintiedig

### Cofnodion am foch

**1.** Rhaid i feddiannydd daliad o fewn yr ardal heintiedig baratoi, o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, cofnod yn ôl y categorïau o foch a gedwir ar y daliad a rhaid iddo sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddaru a'i ddangos i arolygydd ar ei gais. Yn achos daliadau lle na chedwir moch y tu mewn, ceir gwneud y cofnod drwy amcangyfrif.

### Ynysu moch

**2.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau —

(a) bod pob mochyn ar y daliad yn cael eu cyfyngu i'r man lle y cedwir hwy neu i fan arall ar y daliad lle y gellid eu cadw ar wahân i foch fferal; a

(b) bod moch fferal yn cael eu rhwystro rhag mynd at unrhyw ddeunydd y gallai'r moch ar y daliad fynd ato.

### Symud moch

**3.** Ni chaiff neb symud mochyn i mewn i'r daliad nac ohono os nad oes trwydded wedi ei rhoi i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

### Bioddiogelwch

**4.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod dull priodol o ddiheintio yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio wrth y mynedfeydd a'r allanfeydd yn y mannau hynny o'r daliad y cedwir moch ynddynt ac wrth fynedfeydd ac allanfeydd y daliad ei hunan.

### Moch marw neu glaf

**5.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol am unrhyw foch fferal sy'n marw ar y daliad a rhaid iddo gadw carcasau'r moch hynny ar y daliad nes bydd arolygydd milfeddygol wedi rhoi gwybod iddo nad oes angen gwneud hynny rhagor.

### Moch fferal

**6.** Ni chaiff neb ddod —

(a) â charcas nac unrhyw ran o fochyn fferal; na

(b) ag unrhyw ddeunydd na chyfarpar y gallai moch fferal yn yr ardal heintiedig fod wedi mynd atynt, i mewn i ddaliad yn yr ardal heintiedig.

# RHAN II

## Camau sy'n gymwys yn yr ardal heintiedig

**Allforio moch, semen, ofa neu embryonau o'r ardal heintiedig**

**7.** Ni chaiff neb symud yr un mochyn nac unrhyw semen, ofwm nac embryo o'r ardal heintiedig at ddibenion eu hallforio i Aelod-wladwriaeth arall.

**Cysylltiad â moch fferal**

**8.** Rhaid i unrhyw berson sy'n dod i gysylltiad â mochyn fferal yn yr ardal heintiedig cymryd camau i sicrhau nad yw'n lledaenu'r clefyd.

**9.** Rhaid i unrhyw berson sy'n saethu mochyn fferal neu'n cael hyd i garcas mochyn fferal roi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol. Os y person hwnnw a saethodd y mochyn, rhaid iddo gadw'r carcas am 24 awr ar ôl rhoi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a sicrhau ei fod ar gael i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol fel y gallai wneud unrhyw samplu neu brofion sydd, ym marn y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol, yn briodol.